***Drwy e-bost***
SeneddCommunities@assembly.wales

Annwyl John,

**Ymateb: Cau'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Mai 2018 yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr effaith o gau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ymateb hwn yn ychwanegol at y dystiolaeth a gyflwynwyd gennym o'r blaen i'r ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor.

Rydym wedi ymgysylltu ymhellach â'r holl Awdurdodau sy'n aelodau i ni wrth baratoi ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r ymholiadau pellach sydd wedi'u hamlinellu yn eich llythyr:

**Pa mor effeithiol y mae'r rhaglen gau wedi bod, ac a yw llywodraeth leol wedi cael cymorth digonol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnod pontio**

Cafwyd y penderfyniad ffurfiol i gau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar 14 Chwefror 2017. Cynigiwyd cyfnod pontio gan Lywodraeth Cymru i bara drwy gydol 2017-18 er mwyn rhoi cyfle i ddod â'r rhaglen i ben yn raddol erbyn Mawrth 2018 gyda'r bwriad o sicrhau ei gwaddol drwy raglenni ariannu olynol/eraill.

Roedd disgwyl i Gyrff Cyflawni Arweiniol gyflwyno cynlluniau pontio amlinellol erbyn 31 Mawrth 2017, a chynlluniau mwy manwl wedyn erbyn 31 Mai 2017 – yn amlinellu'r dull o bontio, amserlenni arfaethedig, trefniadau cynnwys ac ymgysylltu a'r math o brosiectau a fyddai'n parhau yn ystod y flwyddyn. Er mwyn darparu cymorth ar gyfer y pontio, sefydlodd Llywodraeth Cymru Dîm Pontio, a lluniodd ganllawiau a dogfennau atodol.

Mae cau rhaglen yn her bob amser, heb sôn am gau rhaglen sydd o faint mor sylweddol ac un a fyddai erbyn hynny wedi bod ar waith mewn rhai ardaloedd am ymhell dros 10 mlynedd. Mewn nifer o ardaloedd, roedd y rhaglen wedi dod yn seilwaith mewn cymunedau a oedd yn sicrhau bod nifer o wasanaethau eraill yn cyrraedd y dinasyddion hynny sydd ag angen cymorth.

Steve Thomas CBE
Prif Weithredwr
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru
wlga.wales

@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

Er na ellir byth gael amser "da" i gau rhaglen, y teimlad cyffredinol ymysg Awdurdodau Lleol oedd y byddai wedi bod yn bosibl rheoli'r broses o gau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn well a hynny am nifer o resymau:

- Yn gyntaf, roedd yr amserlenni byr yn her i'r gallu i gynllunio ac ymateb yn effeithiol ar gyfer pontio. Mae teimlad cyffredinol yn yr ymatebion nad oedd y cyfnod rhwng y cyhoeddiad ffurfiol bod y rhaglen i gau a'r cynlluniau pontio disgwyliedig yn ddigonol.

- Yn ail, roedd y cyhoeddiad wedi'i wneud ychydig cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2017. Roedd hyn yn ychwanegu at y cymhlethdod i swyddogion a oedd yn rheoli'r newid ar lefel leol.

- Yn drydydd, ar adeg y cyhoeddiad am gau'r rhaglen nid oedd eglurhad na chyfarwyddyd ar gael ar y pryd am fodelau ariannu gwahanol/newydd. Roedd y cyd-destun polisi yn datblygu hefyd mewn perthynas â Cymru'n Gweithio a'r cynllun cyflogadwyedd newydd nad oedd y manylion ar eu cyfer wedi'u cadarnhau eto, fel ei bod yn anodd blaengynllunio ar gyfer trefniadau pontio.

Un pwynt y dylem ei wneud mewn perthynas â'r broses o gyhoeddi bod y rhaglen i'w chau yw'r effaith ar forâl staff. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau wedi nodi bod eu staff wedi cael gwybod gyntaf am gau'r rhaglen drwy'r cyfryngau – a bod hynny wedi rhoi Awdurdodau Lleol fel cyflogwyr mewn sefyllfa anodd iawn. Roedd hyn wedi arwain at flwyddyn anodd o bontio wrth i Awdurdodau Lleol gymryd camau i geisio cadw staff a chynnal eu morâl wrth bontio i fodel ar gyfer y dyfodol a oedd yn amodol ar gymeradwyo pellach ac yn agored i ansicrwydd. Roedd Awdurdodau Lleol yn wynebu penderfyniadau anodd wrth ymwneud â cheisio cadw staff o ran cydbwyso risg ariannol, risg i'w henw da a'u rhwymedigaethau fel cyflogwyr tuag at eu cyflogeion (gan fod rhai aelodau staff wedi gwasanaethu am flynyddoedd lawer yn yr Awdurdodau).

Mae Awdurdodau Lleol yn cyfeirio at brofiadau gwrthgyferbyniol o ran y cymorth a'r cyfathrebu a gafwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod pontio. Fodd bynnag, roedd yr holl ymatebion yn croesawu'r ffordd roedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyfarfodydd rheolaidd â Swyddogion Arweiniol perthnasol ledled Cymru – er hynny, roedd nifer yn teimlo y byddai wedi bod yn bosibl cyrfhau hyn drwy sicrhau bod canllawiau ysgrifenedig ar gael yn amserol i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu lledaenu'n glir.

Er gwaethaf yr elfennau o ansicrwydd, mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol wedi dweud mai peth da oedd gallu penderfynu'n lleol ar oblygiadau'r cyfnod pontio o ran adnoddau, gan fod hyn wedi caniatáu i Awdurdodau Lleol benderfynu ar ddulliau a oedd yn briodol i amgylchiadau ac anghenion lleol.

I gloi, mae'r holl Awdurdodau Lleol wedi nodi eu bod, er gwaethaf yr ansicrwydd a'r risgiau ar ddechrau'r cyfnod pontio, wedi rheoli'r broses o gau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn llwyddiannus – a'u bod bellach wedi mabwysiadu dulliau hollol newydd sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd yn eu hardaloedd lleol. Roedd Awdurdodau Lleol yn gallu ymgysylltu â'u cymunedau a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu ffordd newydd o weithio a oedd yn addas i'w diben ar gyfer eu hardal leol; un a oedd yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn drwy ddull unigol cydgysylltiedig a oedd yn amlasiantaethol ac yn draws-sectoraidd, gan symleiddio a chyfuno ffrydiau cyllido.

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

**Data am nifer y prosiectau sydd wedi gallu parhau ar ryw ffurf a'r nifer sydd wedi cau'n llwyr**

Rydym wedi edrych ar ein hymateb i'r cwestiwn hwn gyda'r Awdurdodau Lleol sy'n Aelodau i ni, gan fod angen cael data a mewnbwn technegol er mwyn rhoi ymateb cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae amgylchiadau lleol yn amrywio'n fawr, ac nid yw darparu data ar eu pen eu hunain am nifer y prosiectau sydd wedi parhau neu ddod i ben yn cyfleu darlun cywir o gyd-destun y cau ym mhob cymuned leol. Nid yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cadw data mor fanwl â hyn am brosiectau unigol mewn Awdurdodau Lleol penodol. Felly, oherwydd yr amserlen a graddau'r cymhlethdod sydd ynglŷn â llunio ymateb cynhwysfawr, nid ydym yn gallu ymateb yn llawn i'r cwestiwn hwn. Er hynny, rydym wedi amlinellu rhai pwyntiau allweddol isod a all fod o gymorth i chi.

I gyd-fynd â diwedd proses cau'r rhaglen, roedd yn ofynnol i bob Corff Cyflawni Arweiniol gyflwyno Adroddiad Terfynol Ffurfiol i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am fanylion y broses o gau'r rhaglen ym mhob ardal glwstwr, manylion y gweithgareddau prosiect sy'n parhau/dod i ben a manylion y goblygiadau lleol i gymunedau lleol.

Defnyddiwyd dulliau gwahanol ar draws Awdurdodau Lleol, ac roedd rhai ohonynt heb allu lliniaru'r risgiau ariannol/staffio ac wedi cau nifer o brosiectau yn ystod y flwyddyn bontio. Yn achos rhai Awdurdodau Lleol, roedd y rhan a gymerwyd gan sefydliadau trydydd parti yn y model cyflawni wedi ychwanegu at y cymhlethdodau a'r risgiau yn eu rôl fel Cyrff Cyflawni Arweiniol. Fodd bynnag, roedd rhai Awdurdodau Lleol yn gallu ysgwyddo'r risgiau ac yn gallu parhau â'r rhan fwyaf o'u gweithgarwch a chadw rhai staff – er bod nifer o newidiadau yn y modelau ariannu a chyflawni.

Sylw cyffredinol ar sail yr ymatebion a gafwyd yw bod Awdurdodau Lleol a oedd eisoes wedi dechrau pontio at fodel mwy integredig drwy weithgareddau treialu/braenaru wedi ymateb yn fwy cadarnhaol at ei gilydd mewn perthynas â'r broses pontio, a'r gallu i barhau â lefel uwch o weithgarwch prosiectau.

I gloi, er bod profiad Awdurdodau Lleol wrth ddelio â'r cyfnod pontio wedi bod yn gymysg, maent i gyd yn croesawu'r dull y maent wedi pontio ato. Mae cydnabyddiaeth a chefnogaeth i'r dull "un tîm", i integreiddio ac alinio gwasanaethau cymorth ar sail amgylchiadau lleol. Mae Awdurdodau Lleol wedi bod yn werthfawrogol iawn o'r gallu i ddefnyddio dulliau a ffrydiau cyllido lluosog – wedi'u teilwra yn ôl anghenion eu cymunedau lleol. Mae'r dull hwn o integreiddio a symleiddio darpariaeth yn cael ei hyrwyddo ymhellach drwy'r rhaglen Cyllido Hyblyg beilot, y ceir cefnogaeth gryf iddi – i sicrhau bod y bobl yn ein cymunedau yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, beth bynnag yw'r ffynhonnell ariannu neu'r corff darparu. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn edrych ymlaen at gydweithio ymhellach â Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i ddatblygu'r agenda ar Gyllido Hyblyg ymhellach – a sicrhau bod egwyddorion integreiddio a symleiddio yn cael eu derbyn yn llwyr yng nghyd-destun cyflawni a llywodraethu.

Rwyf yn gobeithio y bydd yr ymateb hwn o rywfaint o gymorth i ateb eich ymholiadau.

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

Yn gywir,



Y Cyng Rob Stewart
Llefarydd CLlLC ar Ddatblygu Economaidd, Ewrop ac Ynni

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.